| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Mai 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, Strategaeth a Chefnogaeth** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyngor: Gwasanaethau Cymdeithasol 2012/2013** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Rhaid i holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru lunio adroddiad blynyddol i roi crynodeb o'u barn ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

1.2 Mae adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2012/2013 wedi'i amgáu yn Atodiad 1. Bwriad yr adroddiad yw rhoi darlun gonest i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych a dangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir. Bydd ymgynghori pellach ar yr adroddiad a bydd yn cael ei fireinio a bydd angen ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn erbyn mis Gorffennaf 2013.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi ein hunanasesiad i'r Pwyllgor Archwilio o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella yn 2013/2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a gwneud sylw ar:

- hunanasesiad y Cyfarwyddwr o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych
- y blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2013/2014
- a yw'r adroddiad drafft yn rhoi darlun clir o berfformiad

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae pedair cydran i Fframwaith Adrodd Flynyddol y Cyngor (FfAFC):

### ➊ Hunan asesiad a dadansoddiad manwl o effeithiolrwydd

4.2 Aseswyd perfformiad yn erbyn set o ddatganiadau canlyniad a ddatblygwyd gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC). Mae'r datganiadau canlyniadau'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ogystal â 'gallu sefydliadol' gan gynnwys cefnogaeth Gorfforaethol, Wleidyddol ac Arweinyddiaeth.

❷ **Trywydd tystiolaeth**

4.3 Casglwyd tystiolaeth sylweddol fel sail i'r hunan ddadansoddiad a dyfarniadau cysylltiedig. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

❸ **Integreiddio gyda chynllunio busnes**

4.4 Mae'r blaenoriaethau gwella rydym wedi'u nodi drwy ein hunanasesiad wedi'u hintegreiddio i Gynlluniau Busnes ein Gwasanaeth ac wedi'u prif-ffrydio felly i fframwaith reoli perfformiad yr awdurdod.

❹ **Cyhoeddi adroddiad blynyddol**

4.5 Yn unol â'r canllawiau sy'n llywodraethu'r broses FfAFC, ysgrifennwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer y cyhoedd. Rhaid i ni gyhoeddi'r adroddiad blynyddol erbyn 31 Gorffennaf 2013.

4.6 Bydd yr adroddiad yn rhan greiddiol o werthusiad perfformiad AGGCC o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych. Mae'r gwerthusiad hefyd yn rhan o asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Sir Ddinbych fel rhan o'u hadroddiad gwelliant blynyddol

**Negeseuon a blaenoriaethau allweddol o'r broses FfAFC**

4.7 Ein hasesiad cyffredinol yw bod Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi llwyddo i wneud gwelliannau gwirioneddol o safbwynt perfformiad ac ansawdd dros y flwyddyn ddiwethaf. Gallwn hefyd ddangos ein bod wedi:

- cefnogi teuluoedd yn llwyddiannus ar gam cynnar i helpu atal problemau rhag gwaethygu
- cynnig cefnogaeth fuan ac wedi helpu pobl i adennill eu hyder a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain e.e. ar ôl syrthio
- cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned a gostwng y nifer o bobl sy'n mynd i Gartrefi Gofal
- cynnig cartrefi sefydlog a chariadus i blant dan ofal
- diogelu plant ac oedolion diamddiffyn yn effeithiol
- gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill
- creu gweithlu sefydlog sy'n cael eu cefnogi gyda'u datblygiad proffesiynol
- cynnig arweiniad clir i wthio'r rhaglen yn ei blaen
- gwella'r broses sicrhau ansawdd
- rheolaeth ariannol cadarn er mwyn darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb

4.8 Fodd bynnag, bu heriau gwirioneddol i'r Gwasanaethau Oedolion a Busnes a'r Gwasanaeth Plant. Rhoddir trosolwg o'r heriau a'n hymateb yn Atodiad 2.

4.9 Mae'r blaenoriaethau gwella a nodir yn yr adroddiad blynyddol yn cydnabod yr angen i barhau i addasu a moderneiddio'n gwasanaethau er mwyn ymateb i

ddisgwyliadau a gofynion Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cymru.

4.10 Dyma rai o nodweddion allweddol ein dull o ailfodelu'n rhagweithiol, a datblygu patrymau gwasanaeth newydd i wella gwasanaethau lleol:

- datblygu gwell gwasanaethau cefnogi teuluoedd gyda gwasanaeth cefnogi teuluoedd 24/7;
- cryfhau cefnogaeth pontio i bobl ifanc gydag anableddau sy'n symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion;
- gweithredu'r model IFSS (Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig);
- datblygu Gofal Ychwanegol atodol;
- ddatblygu cynllun tair blynedd i greu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr;
- buddsoddiad ychwanegol mewn ail-alluogi ac ymagweddau i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol heb fod angen gofal cymdeithasol parhaus;
- llai o absenoldeb salwch, cwblhau cyfran uwch o werthusiadau perfformiad a gwell amseroedd ymateb i gwynion.

4.11 Rhaid i ddyfodol ein gwasanaethau edrych yn wahanol ac felly bydd ein hymrwymiad i foderneiddio'n cynnwys buddsoddiad uwch mewn gwasanaethau ymyrraeth ataliol a buan i alluogi dinasyddion i fod yn annibynnol, gwydn a galluog. Bydd rhaid ategu'r ymagwedd hon gydag ystod o wasanaethau, gweithgarwch a rhwydweithiau cefnogi a fydd ar gael i bobl yn eu cymuned eu hunain. Bydd angen atebion ar draws y cyngor/gwasanaeth a thraws-sector gan gynnwys cynlluniau a arweinir gan y gymuned.

4.12 Wrth i ni ailfodelu a datblygu gwasanaethau ac ymagweddau newydd, rydym yn cydnabod y bydd hyn yn dod â newid ac, yn anochel, bydd rhai newidiadau yn amhoblogaidd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd yn golygu nad oes modd osgoi penderfyniadau anodd. Byddwn yn canolbwyntio ar wneud newidiadau sy'n cynnig gwasanaethau cost effeithiol, cynaliadwy sy'n sicrhau y caiff pobl ddiamddiffyn eu diogelu a bod pobl yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cynnig urddas mewn gofal a chanlyniadau da.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r blaenoriaethau a fanylir yn yr FfAFC yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaeth 4: mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Mae'r esiamplau'n cynnwys:

- gweithio gyda'r gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden i gefnogi pobl ddiamddiffyn i fyw'n annibynnol drwy gynlluniau ar y cyd;
- gweithio gyda'r Gwasanaethau Tai, Archwilio Mewnol ac Amgylchedd i symleiddio prosesau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl;
- sicrhau bod teuluoedd sy'n wynebu heriau neu ag anghenion cymhleth yn derbyn cymorth wedi'i dargedu, gyda'r nod o gadw teuluoedd gyda'i gilydd;
- gweithio efo asiantaethau partner i sicrhau ein bod yn nodi a chefnogi plant a theuluoedd diamddiffyn yn fuan i atal problemau rhag codi a gwaethygu.

5.2 Mae gweithgaredd yn yr adroddiad blynyddol yn cyfrannu / a bydd yn parhau i gyfrannu yn uniongyrchol at, ac yn elwa o, ddarparu'r rhaglenni Uchelgais Economaidd a Moderneiddio'r Cyngor.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nod y gweithredoedd a nodir yn yr adroddiad yw darparu gwelliannau i wasanaethau, gwella canlyniadau a diwallu anghenion lleol yn well yng nghyd-destun cyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol heriol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

7.1 Cynhelir Asesiad llawn o Effaith ar Gydraddoldeb yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar yr adroddiad drafft.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Rydym wedi defnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am ein gwasanaethau fel rhan o'n system sicrhau ansawdd.

8.2 Rydym wedi defnyddio canfyddiadau'r archwiliadau AGGCC positif yn 2012/2013 ynghyd ag ymchwil arfer da a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fel yr Adolygiad Cenedlaethol o Ganlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

8.3 Cynhelir ymgynghoriad ar yr asesiad drafft gydag Iechyd, AGGCC a chydweithwyr o Sir y Fflint fel rhan o broses adolygu cyfoedion lle bydd pob un ohonom yn dadansoddi ac adolygu hunanasesiadau ein gilydd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nodwyd arian pellach i gefnogi darpariaeth blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys un flwyddyn o sicrwydd Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllideb gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y dyraniad hwn yn ariannu'r blaenoriaethau cysylltiedig yn yr FfAFC. Mae'n hanfodol i ddarparu costau gweithredu camau FfAFC pellach o fewn yr adnoddau a nodwyd a chyflawni arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Datblygwyd cofrestrau risg manwl ar gyfer y Gwasanaeth Oedolion a Busnes ac ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Gan fod yr FfAFC wedi'i brif-ffrydio i waith y Gwasanaethau, caiff y risgiau cysylltiedig â'r camau i'w lliniaru a'u rheoli eu cynnwys ar y gofrestr risg.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Canllawiau Statudol ar Rôl ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a roddwyd dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

11.2 Mae Erthygl 6.3.4(b) yn amlinellu pwerau archwilio mewn perthynas â monitro perfformiad ac amcanion polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Prif Reolwr (Cymorth Busnes) - Gwasanaethau Oedolion a Busnes
Ffôn:  01824 706641